COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 14 AWST 2018, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| SE Baldwin | TH Beedle | RJ Collins |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

AA Pucella a/ac JE Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Katia Daw | Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

128. DATGANIADAU O FUDDIANT
Dim

129. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT
Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad, oedd yn gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat.

Gwnaed y cais gan gwmni Peyton Travel Limited, i drwyddedu Dacia Logan MCV Laureate DCI, rhif cofrestru'r cerbyd AO64 KVW, fel cerbyd hurio preifat i eistedd 4 person. Roedd perchennog blaenorol i'r cerbyd ac fe'i cofrestrwyd i ddechrau gan y DVLA ar 29 Hydref 2014.

Gohiriwyd y cyfarfod am amser byr er mwyn i'r Aelodau gael archwilio'r cerbyd.

Ar ôl ailgychwyn y cyfarfod, dywedodd Rheolwr y Tîm (Trwyddedu) wrth yr aelodau mai 41,089 oedd nifer milltiroedd cyfredol y cerbyd. Dywedodd fod y cerbyd yn syrthio y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd mynediad ynddo i gadair olwyn, ond roedd canllawiau polisi penodol gyda golwg ar drwyddedu Cerbydau Hurio Preifat am y tro cyntaf oedd yn syrthio y tu allan i ganllawiau'r polisi a amlinellwyd ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Er gwybodaeth i'r aelodau, roedd hanes gwasanaeth wedi ei ddarparu, a roddwyd ar 16 Chwefror 2016, a nifer y milltiroedd yr adeg honno oedd 15,826, ar 19 Awst 2017 a nifer y milltiroedd erbyn hynny yn 31,872. Archwiliwyd y cerbyd yn ddiweddar gan swyddog gorfodi ar 2 Awst 2018 a chadarnhaodd mai nifer y milltiroedd y diwrnod hwnnw oedd 41,083. Cyflwynwyd y cerbyd mewn cyflwr da heb ddim problemau na diffygion gweladwy.

PENDERFYNWYD: Bu'r Is-bwyllgor yn ystyried y cais i drwyddedu Cerbyd Rhif Cofrestru AO64 KVW fel Cerbyd Hurio Preifat.

Sylwodd yr Aelodau fod y cais yn syrthio y tu allan i'r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd.

Nododd yr Aelodau ymhellach fod y Polisi ym mharagraff 2.2 yn caniatáu iddo gael ei lacio mewn amgylchiadau eithriadol, ac roedd enghreifftiau o'r rhain wedi eu disgrifio ym mharagraff 2.4 o'r Polisi.

Ar ôl archwilio'r cerbyd, teimlai'r Is-bwyllgor fod y cerbyd yn eithriadol o ran ei ansawdd y tu mewn a'r tu allan a'i nodweddion diogelwch. Felly caniataodd yr Is-bwyllgor y drwydded.

130. <u>CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT</u>

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad, oedd yn gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat.

Gwnaed y cais gan gwmni Peyton Travel Limited, i drwyddedu Dacia Logan MCV Laureate DCI, rhif cofrestru'r cerbyd DE17 DPX, fel cerbyd hurio preifat i eistedd 4 person. Roedd perchennog blaenorol i'r cerbyd ac fe'i cofrestrwyd i ddechrau gan y DVLA ar 18 Mawrth 2017.

Gohiriwyd y cyfarfod am amser byr er mwyn i'r Aelodau gael archwilio'r cerbyd.

Ar ôl ailgychwyn y cyfarfod, dywedodd Rheolwr y Tîm (Trwyddedu) wrth yr aelodau mai 12,465 oedd nifer milltiroedd cyfredol y cerbyd. Dywedodd fod y cerbyd yn syrthio y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd mynediad yn y cerbyd i gadair olwyn, ond roedd canllawiau polisi penodol gyda golwg ar drwyddedu Cerbydau Hurio Preifat am y tro cyntaf oedd yn syrthio y tu allan i ganllawiau'r polisi a amlinellwyd ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Er gwybodaeth i'r aelodau, nid oedd hanes gwasanaeth wedi ei ddarparu gan nad oedd y gofyniad am wasanaeth wedi ei gyrraedd eto. Edrychodd swyddog gorfodi ar y cerbyd ar 2 Awst 2018 ac roedd y cerbyd wedi ei gyflwyno mewn cyflwr da a nifer y milltiroedd yr adeg honno yn 12,462. Cyflwynwyd y cerbyd mewn cyflwr da heb ddim diffygion na phroblemau gweladwy.

PENDERFYNWYD: Bu'r Is-bwyllgor yn ystyried y cais i drwyddedu Cerbyd Rhif Cofrestru DE17 DPX fel Cerbyd Hurio Preifat

Sylwodd yr Aelodau fod y cais yn syrthio y tu allan i'r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd.

Nododd yr Aelodau ymhellach fod y Polisi ym mharagraff 2.2 yn caniatáu iddo gael ei lacio mewn amgylchiadau eithriadol, ac roedd enghreifftiau o'r rhain wedi eu disgrifio ym mharagraff 2.4 o'r Polisi.

Ar ôl archwilio'r cerbyd, teimlai'r Is-bwyllgor fod y cerbyd yn eithriadol o ran ei ansawdd y tu mewn a'r tu allan a'i nodweddion diogelwch. Felly caniataodd yr Is-bwyllgor y drwydded.

131. <u>MATERION BRYS</u>

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10:31